# LEFEL 3 TYSTYSGRIF/ DIPLOMA CYMHWYSOL LEFEL 3 MEWN GWYDDOR FEDDYGOL

## Pam dewis Lefel 3 Tystysgrif/ Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol?

Mae'r Dystysgrif/Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol yn ymwneud â sut rydym yn cynnal iechyd ac atal a thrin clefydau. Mae gwyddonwyr meddygol ar flaen y gad ym maes gwasanaethau gofal iechyd, gan fod eu gwaith yn hanfodol wrth roi diagnosis o glefydau, canfod effeithiolrwydd triniaethau a chwilio am ffyrdd newydd o iachâd.

Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi'r gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol i fyfyrwyr er mwyn cefnogi eu datblygiad i addysg uwch neu waith mewn meysydd gwyddor Feddygol.


## Beth fyddaf yn ei astudio?

**Uned 1: Iechyd a Chlefydau Dynol**


Mae'r uned hon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am anatomi a ffisioleg dynol. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o sut mae systemau organau yn gweithredu a rhai problemau a all ddigwydd yn y systemau hyn. Bydd yr uned yn eich galluogi i ddeall gweithrediad arferol y corff ar lefel systemau'r celloedd a systemau ffisiolegol. Byddwch yn dysgu sut mae'r systemau hyn yn adweithio mewn sefyllfaoedd gwahanol, a sut mae ffactorau megis ffordd o fyw a chlefydau yn gallu gwneud iddyn nhw fynd o chwith.

**Uned 2: Technegau Mesur Ffisiolegol**

Mae'r uned hon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am y mesuriadau ffisiolegol sy'n bosibl eu gwneud i asesu gweithrediad prif systemau'r corff. Mae'n cysylltu anatomi a ffisioleg gyda chanlyniadau profion mesur ffisiolegol, drwy ddealltwriaeth o egwyddorion y technegau mesur. Yn yr uned hon byddwch yn cyflawni profion a fydd yn mesur yn fanwl gywir amrywiaeth o swyddogaethau ffisiolegol. Byddwch yn gallu dehongli canlyniadau'r profion hyn a'u cysylltu ag anhwylderau ffisiolegol posibl.



# LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA CYMHWYSOL LEFEL 3 MEWN GWYDDOR FEDDYGOL



### Uned 3: Dulliau Ymchwil Gwyddor Feddygol

Mae'r uned hon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am gynllunio, cynnal a llunio adroddiadau ar waith ymchwil yn y gwyddorau meddygol gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau a thechnegau. Byddwch yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni gwaith ymchwil er mwyn ennill gwybodaeth ystyrlon. Mae hefyd yn ceisio hybu dealltwriaeth o'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddod i gasgliadau ystyrlon o ddata ymchwil.  Byddwch yn cyflawni eich gwaith ymchwil, yn prosesu'r data a gasglwyd ac yn llunio casgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth eich hunain.

### Uned 4: Meddyginiaethau a Thrin Clefydau

Mae'r uned hon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am wyddor meddyginiaethau, a sut maent yn gweithio drwy ryngweithio â systemau'r corff. Y mae hefyd yn cyflwyno canser, ei berthynas â geneteg, a'r amrywiaeth o driniaethau therapiwtig sydd ar gael. Bydd yr uned yn eich galluogi i ddarparu gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd am sut mae meddyginiaethau yn gweithio, er mwyn sicrhau triniaeth effeithiol i glefydau ac anhwylderau.

### Uned 5: Technegau Labordy Clinigol

Mae'r uned hon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am y technegau labordy clinigol y mae modd eu defnyddio i asesu gweithrediadau'r corff. Mae'n cysylltu gwybodaeth a dealltwriaeth am ffisioleg ddynol a biocemeg â chanlyniadau profion mesur clinigol drwy ddealltwriaeth o egwyddorion technegau mesur.

Bydd yr uned yn eich galluogi i gynnal profion a fydd yn mesur amrywiaeth o baramedrau biocemegol a microbiolegol yn gywir. Byddwch yn dehongli canlyniadau eich profion a chanlyniadau profion eraill, a chysylltu'r profion hyn ag anhwylderau ffisiolegol posibl.

### Uned 6: Astudiaeth Achos Feddygol

Yr uned hon yw'r uned synoptig gyffredinol ar gyfer cymhwyster Diploma. Mae'n rhoi'r cyfle i chi ddangos eich dealltwriaeth o'r cysylltiadau sydd rhwng pum uned arall y cymhwyster Gwyddor Feddygol hwn. Byddwch yn defnyddio sgiliau, technegau, gwybodaeth, dealltwriaeth a chysyniadau ar draws cynnwys y cymhwyster er mwyn cwblhau'r asesiad gofynnol.

Mae'r asesiad yn cynnwys astudiaethau achos meddygol sy'n golygu y bydd angen i chi ddadansoddi'r wybodaeth a roddir, a datblygu asesiad trylwyr o'r cyflwr yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd ganddynt yn unedau eraill y cymhwyster hwn.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

### Lefel 3 Tystysgrif Gymhwysol mewn Gwyddor Feddygol

Mae tair uned yn Nhystysgrif Gymhwysol Lefel 3 Gwyddor Feddygol:

- Mae Uned 1 yn arholiad sy'n ffurfio 50% o gymhwyster y dystysgrif.
- Mae Uned 2 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 25% o gymhwyster y dystysgrif.  Eich athro fydd yn marcio'r elfen hon.
- Mae Uned 3 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 25% o gymhwyster y dystysgrif.  Eich athro fydd yn marcio'r elfen hon.

### Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Feddygol

Mae chwe uned yn Niploma Cymhwysol Lefel 3 Gwyddor Feddygol, ac mae unedau 1, 2 a 3 yn gyffredin gyda'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol:

- Mae Uned 1 yn arholiad sy'n ffurfio 25% o'r cymhwyster diploma.
- Mae Uned 2 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 12.5% o gymhwyster y diploma.  Eich athro fydd yn marcio'r elfen hon.
- Mae Uned 3 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 12.5% o gymhwyster y diploma.  Eich athro fydd yn marcio'r elfen hon.
- Mae Uned 4 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 25% o gymhwyster y diploma.  Eich athro fydd yn marcio'r elfen hon.
- Mae Uned 5 yn dasg asesiad di-arholiad sy'n ffurfio 12.5% o gymhwyster y diploma.  CBAC fydd yn marcio'r elfen hon.
- Mae Uned 6 yn arholiad sy'n ffurfio 12.5% o'r cymhwyster diploma.

## Gyrfaoedd gyda'r Dystysgrif/Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol i chi, yn ogystal â sgiliau ymarferol a fyddai'n cefnogi datblygiad at amrywiaeth o swyddi ym maes gofal iechyd. Swyddi fel rhai ym maes gwyddorau bywyd, hynny yw cynnal amrywiaeth o brofion labordy a phrofion gwyddonol i gynorthwyo â rhoi diagnosis a thrin clefydau. Gallai hyn gynnwys ymchwiliad microsgopig o samplau o feinwe, dadansoddi celloedd gwaed i ymchwilio i anaemia, neu ddadansoddi samplau i nodi yr hyn sydd wedi achosi haint.

Fel arall, byddai cyfleoedd hefyd i symud ymlaen i swyddi yn y gwyddorau ffisiolegol, gan weithio'n uniongyrchol gyda chleifion, yn mesur a gwerthuso organau a systemau penodol, fel gwyddonwyr sy'n gweithio ym maes niwroffisioleg yn cofnodi gweithgarwch trydanol yr ymennydd.

Mae cyfran sylweddol o'r cyfleoedd gyrfa yn y sector hwn ar lefel gradd. O gael ei ategu gan gymwysterau priodol eraill, bydd Tystysgrif/Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Feddygol yn caniatáu symud ymlaen i addysg uwch mewn amrywiaeth o raglenni Gwyddoniaeth Gymhwysol, fel gwyddor fiofeddygol, gwyddorau bywyd a ffisioleg.